# Diweddariadau blynyddol data dangosyddion MALIC - wedi'u hatal ar gyfer 2018

Oherwydd newidiadau yn y ffynonellau data a'r amser sydd ei angen i ddatblygu MALIC 2019, ni fydd unrhyw ddiweddariad i ddangosyddion MALIC yn ystod 2018.

Mae pedwar o'r naw dangosydd a ddiweddarir fel arfer yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn ffynonellau data. Mae'r pump arall yn gyfartaleddau aml-flynedd sy'n annhebygol o newid yn sylweddol mewn blwyddyn, neu'n annhebygol o gael effaith sylweddol os na chaiff eu diweddaru yn ystod 2018.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod hydref 2018 ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag ystod o arbenigwyr a defnyddwyr y data i ddatblygu ein cynigion. Bydd cynlluniau ar gyfer diweddariadau blynyddol i rai o'r data dangosyddion yn dilyn 2019 yn cael eu cynnwys yn ein hymgynghoriad.

Fel rheol, byddem yn diweddaru 9 dangosydd bob blwyddyn, fel a ganlyn:

- Amddifadedd Incwm a Chyflogaeth (2 ddangosydd) - byddai'r cyfnod cyfeirio ar gyfer diweddariad 2018 yn dechrau ym mis Ebrill 2017, pan fu dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cyffredinol yng Nghymru. Oherwydd natur ddaearyddol y broses o gyflwyno, newidiadau i'r systemau budd-daliadau a'r data sylfaenol, byddai anghysondeb yn y dangosydd hwn rhwng ardaloedd a thros amser. Ni fyddai'r dull a gymerir i ymgorffori hawlwyr Credyd Cyffredinol yn nangosyddion 2016 a 2017 yn briodol yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth llawn, ac mae angen gwaith pellach i ystyried dyfodol y dangosyddion hyn.
- Cyfnod allweddol 4 (2 ddangosydd) - mae newidiadau i fesurau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn effeithio ar gysondeb y dangosyddion hyn dros amser, gan ddechrau o flwyddyn academaidd 2016/17, a fyddai'n cyfrannu at ddiweddariad dangosydd 2018 (cyfartaledd 3 blynedd) .
- Amddifadedd iechyd (3 dangosydd) - mae mynychder canser, cyfraddau pwysau geni isel a marwolaeth yn gyfartaleddau deng mlynedd, yn annhebygol o newid yn sylweddol mewn blwyddyn.
- Y tri dangosydd sy'n weddill - mae mesurau cyrhaeddiad cyfnod allweddol 2, absenoliaeth mynych ddisgyblion ysgol ac achosion o dân - yn gyfartaleddau dwy neu dair blynedd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith sylweddol o beidio â diweddaru'r data hwn yn ystod 2018.

Adolygir y dangosyddion uchod, a dangosyddion MALIC presennol a newydd posibl eraill i'w cynnwys ym mynegai 2019.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Ebrill 2018